

# PWYLLGOR CYNLLUNIO

(CYFARFOD AML-LEOLIAD - SIAMBR Y CYNGOR PORT, TALBOT A MICROSOFT TEAMS)

Aelodau'n bresennol:

Dydd Mawrth, 22 Awst 2023

Cadeirydd: Aelod J.Jones

Is-gadeirydd: Aelod T.Bowen

Cynghorydd: S.Paddison, R.Davies, H.Davies, C.James, C.Jordan, S.Thomas, N.Goldup-John, R.Mizen a/ac P.Rogers

Swyddogion yn bresennol: C.Morris, D.Thomas, C.Davies, G.Liley a/ac C.Plowman

---

## 1. CYHOEDDIAD Y CADEIRYDD

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod.

## 2. DATGANIADAU O FUDDIANNAU

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiannau.

## 3. GWNEUD CAIS AM YMWELIAD (AU) SAFLE O'R CEISIADAU A GYFLWYNWYD

Ni dderbyniwyd unrhyw geisiadau am ymweliad(au) safle.

## 4. CAIS RHIF P2023/0265 - TIR YN FOUNDRY ROAD

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio am y cais hwn (Adeiladu 15 o unedau diwydiannol/masnachol ysgafn (Defnydd Dosbarth B2/B8) â lleoedd parcio, ardal wasanaethu, tirlunio caled a meddal a gwaith draenio cysylltiedig ar dir i'r gogledd o Old Foundry Road, Pontardawe, fel y manylir yn yr adroddiad a ddosbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2023/0265, yn unol ag argymhellion swyddogion, yn amodol ar yr amodau a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.

5. **CAIS RHIF P2023/0480 - 6 CARDONNEL ROAD**

Gwnaeth swyddogion gyflwyniad i'r Pwyllgor Cynllunio am y cais hwn (ardal ddec uwch arfaethedig y tu ôl i'r eiddo, gyda sgrîn breifatrwydd gysylltiedig) yn 6 Cardonnel Road, Sgiwen, Castell-nedd, Castell-nedd Port Talbot SA10 6DE, fel y manylir yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.

**PENDERFYNWYD:** Cymeradwyo Cais Rhif P2023/0480, yn unol ag argymhellion Swyddogion, yn amodol ar yr amodau a gynhwyswyd yn yr adroddiad a ddsbarthwyd.

6. **CYFLWYNIAD AR GEISIADAU**

Derbyniodd aelodau gyflwyniad am y ceisiadau a gynhwysir yn yr agenda ar gyfer y cyfarfod hwn (wedi'i nodi fel cofnod rhif 4 a 5).

7. **APELIADAU Y PENDERFYNWYD ARNYNT - 24/07/2023 TAN 11/08/2023**

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Apeliadau y Penderfynwyd arnynt o 24 Gorffennaf 2023 i 11 Awst 2023.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

8. **APELIADAU A DDERBYNIWYD - 24/07/2023 TAN 11/08/2023**

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Apeliadau a Dderbyniwyd o 24 Gorffennaf 2023 i 11 Hydref 2023.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

9. **PENDERFYNIADAU DIRPRWYEDIG - 24/07/2023 TAN 11/08/2023**

Nododd yr Aelodau'r rhestr o Benderfyniadau Dirprwyedig o 24 Gorffennaf i 11 Awst 2023.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

10. **EITEMAU BRYD**

Ni dderbyniwyd unrhyw eitemau brys.

## **CADEIRYDD**

Mae'r dudalen hon yn fwriadol wag